WALTERS



# GWAITH I DDYMCHWEL Y STRWYTHURAU WEDI DECHRAU

RHONDDA CYNON TAF

Hen Siopau Marks and Spencer/Dorothy Perkins

**Stryd y Taf, Pontypridd**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penodi Walters I ddymchwel hen siopau Marks and Spencer a Dorothy Perkins ar Stryd y Taf yng nghanol tref Pontypridd. Dechreuodd Walters ar y Gwaith o baratoi yr adeiladau ar gyfer cael eu dymchwel ddiwedd mis Mawrth 2023.



## CYNNYDD

Mae palis a sgaffaldiau wedi'u codi ar y llwybr troed o flaen yr adeiladau ar hyd Stryd y Taf.

Mae Gwaith datgysylltu gwasanaethau wedi dod i ben, ac mae elfennau anstrwythurol mewnol yr adeilad wedi'u tynnu.

Mae Gwaith codi sgaffaldiau tu cefn yr adeiladau yn mynd rhagddo a bron wedi dod i ben.

Mae mynediad i Barc Coffa Ynysangharad ar hyd y bont droed ar gael trwy gydol y Gwaith.

## GWAITH DYMCHWEL Y STRWYTHURAU

Bydd Walters yn defynyddio peiriant dymchwel arbenigol sy'n cyrraedd mannau uchel er mwyn tynnu'r adeilad yn ddarnau yn ofalus.

Bydd ffrydiau gwastraff yn cael eu cadw ar wahân ac yn cael eu symud I ganolfannau ailgylchu oddi ar y safle.

Gweithrediadau safle sydd ar y gweill:

- Gorffen Gwaith codi sgaffaldiau tu cefn i'r adeiladau
- Derbyn peiriannau dwmchwel arbenigol



## DIOGELWCH

Gall unrhyw fynediad heb awdurdod i'r safle arwain at anaf difrifol. Bydd y safle yn cael ei ddiogelu gan Walters er mwyn atal y fath fynediad. Bydd gwasanaeth diogelwch ar y safle y tu allan i oriau gwaith arferol. Serch hynny, dyma ofyn i chi barhau i fod yn wyliadwrus a rhoi gwybod am unrhyw ddifrod neu amheuaeth o fynediad heb ganiatâd ar unwaith i garfan y safle drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod.

## MANYLION CYSWLLT WALTERS AR Y SAFLE

**Goruchwyliwr y Safle**
07977 197121

**Pencadlys Walters**
01685 815100

Oso es cwestiynau gyda chi ynglŷn â gwaith ailddatblygu'r hen siopao yn 97-102 Stryd y Taf, e-bostiwch SouthernGateway@RCTCBC.GOV.UK



